YSGOL BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU GRUFF

Y mae pawb ym Mrynrefail yn llongyfarch Gruffydd John am gael ei ddewis i fod yn aelod o garfan tîm dan 18 Cymdeithas Pêl Droed Ysgolion Cymru. Dyma'r ail gefnwr ifanc i gael ei ddewis o Frynrefail wedi galwad Iwan Price i'r garfan y llynedd.

Bydd Gruff yn y garfan i chwarae yn erbyn Lloegr ac Awstralia a gyda lwc fe ddarlledir y gemau ar Sky Sports.

Mae Gruff yn bêl droediwr amryddawn sy'n gallu chwarae mewn nifer o safleoedd gwahanol er iddo chwarae'n gyson fel cefnwr dde i ddim cyntaf Llanrug Unedig.

Y mae Gruff eisoes wedi cynrychioli tîm ysgolion Gogledd Cymru dan 18 ac mae yn gapten arnynt eleni.

Hogyn Bryrefs – Da de